Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Maes Y Rhyddid

Pontypridd

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/12/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The

Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Maes Y Rhyddid

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Values in Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	5
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	15/10/2021
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Adroddi[illegible]erfynol heb ei gyhoeddi

Crynodeb

Ymddengys bod y bobl sy'n byw ym Maes y Rhyddid yn hapus a'u bod yn cael gofal da. Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth i'r bobl yn unol â'u cynlluniau personol. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau y cânt eu cadw'n gywir ac yn effeithiol. Mae meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n dda a gwneir cofnod cywir ohonynt. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cael cyfleoedd i roi adborth ar y gofal y maent yn ei gael. Mae'n ymddangos bod y staff gofal yn wybodus ynghylch y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y gwasanaeth a'r gymuned ehangach.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli ac maent yn cael cyfleoedd i ymgymryd â sesiynau goruchwylio a hyfforddiant rheolaidd. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a chaiff gwiriadau recriwtio staff cadarn eu cynnal. Mae'r lefelau staffio yn cael eu cynnal yn ddigonol. Mae'r amgylchedd yn gyfforddus ac yn ddeniadol. Mae systemau ar waith er mwyn sicrhau y caiff buddiannau gorau'r bobl eu hyrwyddo. Mae'r gwiriadau cynnal a chadw a'r gwiriadau tân yn sicrhau bod yr eiddo yn parhau'n ddiogel ac yn rhydd o beryglon. Ymatebir i gwynion ac ymholiadau yn briodol. Mae'r tîm rheoli yn weladwy ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio ac yn deall anghenion y gwasanaeth.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael budd o gydberthnasau cadarnhaol ac mae'r gwasanaeth yn cydnabod bob pob un ohonynt yn wahanol a'r dewisiadau a wnânt. Mae'r cynlluniau personol yn ystyried canlyniadau, diddordebau a dewisiadau unigol. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda a chaiff dewisiadau eu parchu a'u hyrwyddo ganddynt. Mae'r bobl yn cael cymorth i gadw mewn cysylltiad â pherthnasau a'r rheini sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth yn ystyried materion cydnawsedd yn ofalus wrth gynnig lleoliadau. Caiff yr ystafelloedd gwely eu haddurno i adlewyrchu personoliaethau a diddordebau'r bobl. Mae'r amseroedd bwyd yn hyblyg ac yn adlewyrchu dewisiadau a deietau unigol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod o weithgareddau dyddiol i lenwi dyddiau'r bobl ac i gefnogi eu diddordebau unigol. Mae'r broses barhaus o ymgynghori a chael adborth gan berthnasau a gweithwyr proffesiynol yn cefnogi cydberthnasau cadarnhaol.

Caiff iechyd cyffredinol y bobl ei gefnogi. Mae'r cynlluniau personol yn amlinellu anghenion emosiynol ac iechyd corfforol. Mae'r bobl yn mynychu apwyntiadau iechyd mewn modd amserol. Mae trefniadau rhoi a rheoli meddyginiaeth effeithiol yn sicrhau bod y bobl yn aros mor iach â phosibl. Dilynir cynlluniau personol ac mae'r cofnodion yn dangos y caiff unrhyw wiriadau dyddiol angenrheidiol eu cwblhau a'u cofnodi. Mae'r amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Caiff gofal wedi'i bersonoli ei roi i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl ac mae'r gwasanaeth yn deall ac yn addasu i anghenion newidiol. Mae'r gwaith o gynnal adolygiadau rheolaidd yn sicrhau y caiff cynlluniau eu cadw'n gyfredol ac yn effeithiol. Mae'r rotas a welsom yn dangos bod lefelau staffio digonol ar waith i sicrhau y cyflawnir canlyniadau.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn llwyddo i oruchwylio'r gwasanaeth yn ddigonol i sicrhau ei fod yn deall anghenion y gwasanaeth. Mae'r archwiliadau sicrhau ansawdd parhaus yn gwneud yn siwr bod y systemau yn parhau'n effeithiol ac y caiff gwelliannau eu nodi a'u hystyried. Mae mynediad i'r gwasanaeth wedi'i gyfyngu i unigolion awdurdodedig. Caiff gwiriadau tân a chyfleustodau eu cwblhau ac nid oes peryglon yn yr amgylchedd. Mae hyfforddiant a sesiynau goruchwylio parhaus yn sicrhau bod y staff yn ddigon medrus a'u bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Mae'r polisïau'n gynhwysfawr a chaiff hawliau cyfreithiol eu cydnabod. Mae'r gwasanaeth yn rhagweithiol wrth nodi risgiau posibl i'r bobl neu'r cyflogeion.

Adroddiad terfynol heb ei gymeradwyo

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael budd o ofal cadarnhaol ac mae ganddynt bethau i edrych ymlaen atynt. Mae'r gwasanaeth yn annog y bobl i gael rheolaeth dros ddewisiadau dyddiol, megis yr amser y maent yn deffro, y bwyd y maent yn ei fwyta, a ble a sut maent yn treulio eu diwrnodau. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom ddigon o staff yn cefnogi'r bobl mewn modd caredig a gofalgar. Nid oedd modd i ni gasglu adborth gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth; fodd bynnag, roedd y rheini a welsom ar y diwrnod yn ymddangos yn hapus.

Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn teimlo bod y gofal a ddarperir o safon dda; mae'r sylwadau'n cynnwys:

“X is very content and happy within the service”

“X is very happy and gets a personal service”

Caiff rhaglenni o weithgareddau dyddiol wedi'u teilwra eu cynllunio er mwyn bodloni canlyniadau personol y bobl. Mae'r Hyb, adnodd dydd i grwpiau a gaiff ei reoli gan y darparwr, yn cynnig cyfleoedd i'r bobl ddatblygu cyfeillgarwch ehangach a chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael cyfleoedd cymdeithasol a hamdden yn y gymuned ehangach. Dywedodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyblyg wrth ymweld â'r gwasanaeth a'u bod yn cael eu croesawu gan y staff.

Mae dogfennau manwl a chyfredol yn bodoli. Mae'r gwasanaeth yn ystyried ystod o wybodaeth ac yn ymgymryd â chyfnod pontio graddol cyn derbyn unigolyn newydd. Mae'r cynlluniau personol a welsom yn gadarn, yn fanwl ac yn bersonol. Mae'r asesiadau risg yn rhoi arweiniad ar ymddygiadau a allai fod yn heriol, a strategaethau i'w rheoli. Gwelsom fod awdurdodiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith lle nad oedd gan y bobl alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau pwysig. Mae'r nodiadau dyddiol yn cynnwys lefel dda o fanylion a chaiff siartiau monitro eu cwblhau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gwasanaeth yn cydgysylltu'n briodol â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau bod y bobl mor iach ag y gallant fod. Mae'r weithred o gynnal adolygiadau rheolaidd yn helpu i gadw'r cynlluniau'n gyfredol, yn ystyried a gaiff nodau unigol eu cyflawni a ph'un a oes angen newid dulliau gofal ai peidio. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o adolygu gofal y bobl a'u bod yn teimlo bod y staff yn ystyried eu barn.

Caiff y meddyginiaethau eu rheoli'n dda ac mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir i barhau'n effeithiol. Caiff cofnodion rhoi meddyginiaethau eu cwblhau'n llawn heb fylchau na chamgymeriadau. Mae cwblhau'r broses archwilio meddyginiaeth yn rheolaidd yn sicrhau bod y staff yn cynnal arferion da ac yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel mewn cyfleuster dan glo a chaiff gwiriadau stoc eu rheoli'n effeithiol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd pleserus a chyfforddus ac yn cynnal safonau glendid da. Ymddengys fod pob rhan o'r cartref yn lân, mewn cyflwr da ac wedi'i haddurno i safon dda. Mae'r dodrefn a'r addurn mewn cyflwr da ac ymddengys fod yr ystafelloedd ymolchi a'r ystafelloedd gwely yn lân ac yn daclus. Mae gan yr eiddo ardd breifat gydag adeilad bach ar wahân i'r prif adeilad sy'n cynnwys ystafell synhwyraidd. Caiff ystafelloedd y bobl eu personoli i gyd-fynd â chwaeth bersonol ac mae dwy ardal gymunedol lle y gall y bobl dreulio amser yn cymdeithasu neu'n cwrdd ag ymwelwyr.

Mae'r gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau diogelwch yn rheolaidd. Wrth fynd i mewn i'r adeilad, cadarnhawyd pwy oeddem a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr. Gwelsom fod tystysgrifau diogelwch a gwiriadau ar gael ar gyfer amrywiaeth o ddyfeisiau a chyfleustodau. Cynhelir gwiriadau diogelwch tân ac mae gan y bobl gynlluniau gwagio'r

adeilad personol ar waith os bydd mewn argyfwng. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac ni welsom unrhyw beryglon baglu amlwg yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod cypyrddau meddyginiaethau dan glo i sicrhau eu bod yn cael eu storio'n ddiogel. Caiff ffeiliau cyfrinachol, gan gynnwys cofnodion staff a chynlluniau personol, eu storio'n ddiogel i sicrhau na all unigolion heb awdurdod fynd atynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn teimlo fel petaent yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi gan y gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gweithio'n dda gyda'u cydweithwyr fel tîm a'u bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan y darparwr. Roedd y rotas staffio, sylwadau a wnaed ar ddiwrnod yr arolygiad ac adborth gan y staff yn dangos bod lefelau staffio digonol ar waith. Yn gyffredinol, gwelsom fod y ffeiliau recriwtio yn cynnwys y gwiriadau cyn cyflogaeth gofynnol i sicrhau bod y staff yn addas ac yn fedrus i ymgymryd â'u rolau.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o bolisïau a gweithdrefnau a gwelsom eu bod yn gynhwysfawr, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn addas at y diben. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis ac yn llunio adroddiadau sicrhau ansawdd bob chwe mis yn unol â'r gofynion rheoliadol. Mae'r adnoddau hyn yn bwysig, ac maent yn ystyried arferion cadarnhaol yn y gwasanaeth ac unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. Gwelsom fod y gwasanaeth yn atgyfeirio pryderon diogelu at yr awdurdod lleol ar unwaith. Dywedodd perthnasau wrthym fod y gwasanaeth yn cyfathrebu'n dda â nhw i sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau ac maent yn teimlo eu bod yn gallu codi materion neu ymholiadau. Dywedodd perthynas *"The staff and the manager are approachable".*

Mae'r staff yn cael cyfleoedd goruchwylio a hyfforddiant parhaus. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cael budd o gyfnod sefydlu cychwynnol a sawl cyfle cysgodi yn dilyn hynny. Mae'r matrics hyfforddiant a welsom yn dangos tystiolaeth bod y staff yn cael hyfforddiant craidd parhaus i sicrhau eu bod yn dal yn ddigon medrus i gyflawni eu dyletswyddau. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon diogelu neu chwythu'r chwiban a'u bod yn teimlo'n hyderus i dynnu sylw'r tîm rheoli at unrhyw faterion. Mae'r matrics goruchwyliaeth a welsom a'r adborth gan y staff yn dangos bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd gan y gwasanaeth i gefnogi datblygiad proffesiynol ac i drafod unrhyw newidiadau neu bryderon.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.

Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
36	Nid yw hyfforddiant a drefnwyd yn cael ei gwblhau mewn modd amserol.	Cyflawnwyd
36	Nid yw sesiynau goruchwylio yn cael eu cynnal yn amserol bob amser.	Cyflawnwyd

Dyddiad Cyhoeddi 31/01/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi